# Taflu syniadau ar post-its

## Beth fyddwch chi ei angen?

–Post-its gwahanol liwiau
–Beiros
–Siart troi

## Sut mae'n gweithio?

Rhannwch y Sgowtiaid Fforio mewn i grwpiau bach a rhoi post-its a beiros i bob grŵp. (pob grŵp i gael post-its gwahanol liwiau os yn bosib)

Ysgrifennwch y cwestiynau/pynciau i'w trafod ar y siart troi.

## Cwestiynau/Pynciau

–Fformat y cyfarfod a gynhaliwyd yn y Senedd – ai Pwyllgor neu Gyfarfod llawn ydoedd?
–Beth oedd yn cael ei drafod?
–Pwy oedd yn cymryd rhan? (Dim ond Aelodau'r Cynulliad neu a oedd gwesteion wedi'u gwahodd yno hefyd)
–Ymddygiad y rhai oedd yn cymryd rhan
–Sut oedd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ystod y cyfarfod?
–Beth oedd yn ddiddorol?
–A fyddech chi wedi hoffi gofyn cwestiwn i'r rhai oedd yn cymryd rhan? Os felly, beth?

Gofynnwch i'r grwpiau ysgrifennu eu hatebion/sylwadau ar y post-its, un sylw i bob post-it.

Arweinwyr i gasglu'r post-its fel y cânt eu hysgrifennu a'u gosod ar y siart troi wrth ymyl y cwestiwn/sylw priodol, a grwpio atebion/sylwadau tebyg.

Unwaith mae'r atebion/sylwadau i gyd wedi'u casglu, eu bwydo yn ôl a'u trafod yn ehangach.